Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Byddwn yn cyflwyno rhaglenni adfywio strategol' – Cyngor Castell-nedd Port Talbot


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1964A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Castell-nedd Port Talbot fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn dylunio'i brosiectau adfywio i wella llesiant ond mae cyfleoedd i gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 6

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni gwelliannau hirdymor i lesiant trwy ei brosiectau adfywio, ond gallai egluro ei uchelgais ymhellach a nodi mesurau o lwyddiant 6

Mae'r Cyngor yn dylunio'i weithgarwch adfywio i helpu i fynd i'r afael â dirywiad cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol 8

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ystod o fanteision trwy ei weithgarwch adfywio ond gallai gryfhau'r cysylltiadau ag amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 9

Mae'r Cyngor yn mynd ati'n frwd i geisio gweithio gyda phartneriaid pan fo'n cyflawni ei brosiectau adfywio, ond mae angen iddo asesu effeithiolrwydd ei drefniadau cydweithio wrth edrych tua'r dyfodol 10

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid, ond mae angen iddo wella ac estyn ei ddull o gynnwys pobl 12

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 14

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 15

Atodiad 2: Cynllun Gweithredu'r Cyngor 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a pennu eu hamcanion llesiant; a

b cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2019 a mis Tachwedd 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o 'byddwn yn cyflwyno rhaglenni adfywio strategol', cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ei raglenni adfywio strategol.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

**Arddangosyn 1: Y 'pum ffordd o weithio'**

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion**[1].

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.<br>**Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.<br>**Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.<br>**Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.<br>**Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: Mae'r Cyngor yn dylunio'i brosiectau adfywio i wella llesiant ond mae cyfleoedd i gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015).

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

## Mae'r Cyngor yn dylunio'i brosiectau adfywio i wella llesiant ond mae cyfleoedd i gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy

### Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni gwelliannau hirdymor i lesiant trwy ei brosiectau adfywio, ond gallai egluro ei uchelgais ymhellach a nodi mesurau o lwyddiant

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

12 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae adfywio'n un o amcanion allweddol y Cyngor fel a nodir yn glir yn ei drydydd amcan llesiant, sef 'Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel y gellir gwella lles pobl'.
- Ceir cefnogaeth wleidyddol gref i adfywio yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot, fel a ddangosir gan gymorth arian cyfatebol ac ailfuddsoddiad yn y tîm twristiaeth. Mae'r Cyngor yn nodi bod ffordd hirdymor o feddwl yn ganolog i adfywio yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r Cyngor yn amcanu at greu swyddi â gwerth ychwanegol sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r Cyngor â'i fryd ar arallgyfeirio'r economi i ffwrdd oddi wrth orddibyniaeth ar ei un, prif sector diwydiant. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi nodi bod cyllid cyfredol gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n

[2] Gweler Atodiad 1

fyrdymor o ran ei natur, nad yw'n helpu'r Cyngor i gynllunio a chyflawni ar gyfer yr hirdymor. Enghraifft o hyn yw bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y Cyngor yn ddiweddar ond wedi ei gwneud yn ofynnol iddo'i wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er mwyn gallu ymateb i'r sefyllfa hon fe hoffai'r tîm adfywio fod â rhagor o brosiectau yn yr arfaeth, yn barod i ddechrau, ond mae diffyg capasiti a chyllid ar gyfer gwaith i baratoi prosiectau posibl. Byddai paratoi gwaith ychwanegol y mae'n bosibl na fydd yn mynd yn ei flaen neu'n cael ei ariannu'n gadael y Cyngor yn agored i risg ariannol ychwanegol.

- Mae'r Cyngor yn nodi bod ei brosiectau cyflogadwyedd wedi'u bwriadu i leihau diweithdra er mwyn sicrhau manteision hirdymor o ran gwella llesiant.
- Darparodd y Cyngor enghreifftiau lle mae wedi dylunio prosiectau'n seiliedig ar ddealltwriaeth am angen hirdymor. Yng nghanol tref Castell-nedd fe ddewisodd y Cyngor fod â golwg fwy hirdymor trwy ychwanegu hamdden at yr arlwy fanwerthu bresennol, yn seiliedig ar ei ddealltwriaeth am dueddiadau'r farchnad yn y dyfodol. Roedd datblygiad Parc Ynni Baglan wedi'i fwriadu i gael ei gyflawni dros gyfnod o ugain mlynedd.
- Mae'r Cyngor yn bwrw golwg hirdymor ar adfywio gyda'i bartneriaid trwy gynlluniau allweddol eraill megis: y Fargen Ddinesig, y Strategaeth Ddatgarboneiddio ddrafft, a'i gynlluniau trafnidiaeth.

14 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae'r Cyngor, ar gyfer ei gynllun adfywio strategol, yn defnyddio Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030. Nid oes gan y Cyngor ei gynllun adfywio penodol ei hun. Mae cyfle i ystyried a fyddai'n fuddiol bod â strategaeth sydd:
  - yn nodi'r cyfeiriad a'r uchelgais ar y cyfan ar gyfer adfywio yng Nghastell-nedd Port Talbot;
  - yn cadarnhau'r deilliannau a'r effeithiau y mae ar y Cyngor eisiau eu cyflawni yn yr hirdymor a'r byrdymor o'i waith adfywio;
  - yn ystyried y pum ffordd o weithio yn y Ddeddf; ac
  - yn dangos sut y mae cyllid yn cael ei fuddsoddi i daro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor.
- Mae'r gwasanaeth eiddo ac adfywio wedi cael rhywfaint o adnoddau ychwanegol ar ffurf swyddogion (syrfewyr meintiau), ond mae wedi adnabod bod risgiau'n gysylltiedig â chapasiti a chydnerthedd yn y tîm, a bod diffyg cynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Mae'r Cyngor wedi creu Bwrdd Prosiectau Lleol i oruchwylio'i raglen adfywio, ond trefniant newydd yw hwn ac ni chytunwyd eto ar y trefniadau ar gyfer adrodd wrth y Bwrdd. Ar hyn o bryd nid yw deilliannau hirdymor a byrdymor yn cael eu mesur ac nid oes trefn ar gyfer adrodd arnynt.
- Er bod dangosyddion perfformiad yn eu lle ar gyfer trydydd amcan llesiant y Cyngor, maent yn seiliedig ar weithgareddau i raddau helaeth ac nid ydynt

yn mesur deilliannau. Yr unig ddangosydd perfformiad yn y Cynllun Corfforaethol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag adfywio yw 'nifer y swyddi a grëwyd/ddiogelwyd o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod lleol'. Mae cyfle i'r tîm adfywio adolygu ei fesurau o lwyddiant.

- Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mesur ei berfformiad yn erbyn y mesurau sylfaenol yn Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030, sef cynllun trosfwaol y Cyngor ar gyfer adfywio yn ôl yr hyn y mae'n ei ddweud.

## Mae'r Cyngor yn dylunio'i weithgarwch adfywio i helpu i fynd i'r afael â dirywiad cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi adnabod ac mae'n ceisio cyflawni ystod o fanteision ataliol trwy ei waith adfywio. Mae hyn yn cynnwys atal:
  - diweithdra;
  - busnesau rhag gadael yr ardal;
  - diffyg twf busnesau;
  - dirywiad yr economi leol;
  - dirywiad cymdeithasol;
  - dirywiad amgylcheddol;
  - dibyniaeth ar un sector yn yr economi h.y. y diwydiant dur;
  - tlodi.

[3] Gweler Atodiad 1

- Mae gan y Cyngor ffocws clir ar lesiant. Mae blaenoriaeth allweddol y Cyngor ar ddatblygu economaidd i ddarparu swyddi ac atal dirywiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Mae'r Cyngor yn gallu darparu cyfrif naratif o'r llwyddiannau y mae wedi'u cyflawni dan ei brosiectau adfywio. Mae swyddogion yn gallu disgrifio sut y mae atal yn rym ysgogol ar gyfer eu gwaith adfywio.
- Mae'r Cyngor wedi ystyried y manteision ataliol sy'n gysylltiedig â'i brosiectau adfywio ac mae hyn yn rhagddyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

18 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae'r Cyngor yn adrodd ar nifer o ddangosyddion perfformiad adfywio wrth y Bwrdd Cabinet Adfywio a Datblygu Cynaliadwy. Er bod y Cyngor yn ymwybodol o effaith ataliol ehangach adfywio, nid yw'r metrigau ar gyfer prosiectau unigol a'r rhaglen adfywio ar y cyfan yn adlewyrchu'r ffactorau ehangach, ataliol hyn.

## Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ystod o fanteision trwy ei weithgarwch adfywio ond gallai gryfhau'r cysylltiadau ag amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r amryw strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol y mae'n rhaid iddo gyflawni yn eu herbyn. Mae'r Cyngor yn cyfeirio at y strategaethau hyn a'u perthnasedd yn ei ddogfennau adfywio.

[4] Gweler Atodiad 1

- Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2019-22 yn cynnwys trosolwg byr i ddangos sut y mae'r amcan llesiant 'datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel y gellir gwella lles pobl' yn ategu'r saith nod llesiant cenedlaethol.
- Mae'r Cyngor yn dylunio'i weithgarwch adfywio i feithrin cysylltiadau rhwng ei brosiectau adfywio ffisegol a'i brosiectau cyflogadwyedd.
- Mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu i'r eithaf fanteision cymunedol ei brosiectau cyfalaf pwysig, gan gynnwys cefnogi cyflogaeth leol a'r gadwyn gyflenwi leol. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn swydd swyddog manteision cymunedol i helpu i ddarparu'r cyfleoedd hyn.

22 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfle i ddisgrifio'n well sut y mae ei brosiectau adfywio'n integreiddio â'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ar gyfer grantiau newydd (e.e. Adeiladau ar gyfer y Dyfodol) mae hyn yn un o ofynion y cais, ond nid oes rhyw lawer am hyn yng nghais y Cyngor. Nid oes unrhyw fonitro nac adrodd yn erbyn y nodau hyn wrth i'r prosiect fynd rhagddo.
- Nid yw gwaith y Cyngor ar adfywio wedi'i integreiddio'n glir ag amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Cydnabu'r Cyngor y gallai prosiectau cyflogadwyedd fod wedi'u hintegreiddio'n well, ac mae'n cymryd camau i ddatrys hyn.
- Adnabu'r Cyngor y byddai o fudd ystyried manteision cymunedol yn gynharach yn y broses pan fo'n cynllunio prosiectau adfywio. Er enghraifft, byddai'n fuddiol pe bai'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth weithredol i fanteision cymunedol ar adeg ymgeisio.

## Mae'r Cyngor yn mynd ati'n frwd i geisio gweithio gyda phartneriaid pan fo'n cyflawni ei brosiectau adfywio, ond mae angen iddo asesu effeithiolrwydd ei drefniadau cydweithio wrth edrych tua'r dyfodol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithio’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[5]

## Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae’r Cyngor yn nodi bod ganddo berthynas gadarnhaol â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a hanes o sicrhau cyllid.
- Mae’r Cyngor yn gweithio’n rhanbarthol i gyflawni agenda’r Fargen Ddinesig.
- Mae’r Cyngor yn cydweithio’n lleol i gyflawni prosiectau adfywio, gan gynnwys cydweithio gyda:
  - busnesau (Canolfan Arloesi Dur Flexis, ‘Bŵt-camps i Fusnesau’, a digwyddiadau ‘Cwrdd â’r Prynwr’);
  - prifysgolion (y Campws Arloesi);
  - landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (Tŷ Aberafan ac Ysgol Glan Afan); a hefyd
  - y trydydd sector (yr YMCA a phrosiect Sinema’r Plaza).
- Mae’r Weithfan ym Mhort Talbot yn enghraifft o gydweithio, gan ddod â chynlluniau cyflogadwyedd ynghyd mewn un lle. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau sy’n cael eu rhedeg gan: yr Adran Gwaith a Phensiynau, sefydliadau’r trydydd sector, a’r Cyngor.
- Mae’r Cyngor wedi creu Bwrdd Prosiectau Lleol yn ddiweddar sy’n gyfrifol am ymgysylltiad â phartneriaid lleol, asesu prosiectau, a monitro ariannol a monitro allbynnau’n lleol. Mae’r Bwrdd hwn hefyd yn gweithredu fel y Bwrdd Prosiectau Lleol ar gyfer rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio Llywodraeth Cymru. Partneriaeth yw’r Bwrdd Prosiectau Lleol sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector sy’n cydweithio i gynyddu manteision prosiectau adfywio i’r eithaf i wella ffyniant economaidd y fwrdeistref sirol.
- Mae Grŵp Cymorth Cyflogwyr (GCC) Castell-nedd Port Talbot yn bodoli hefyd. Nod y grŵp hwn yw creu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal leol trwy ddarparu gwasanaeth effeithiol ar gyfer cyflogwyr. Mae’r GCC yn amcanu at roi anogaeth i ddefnyddio dull cydweithredol o fynd ar drywydd cynllunio strategol a gweithdrefnau gweithredol a darparu fforwm ar gyfer rhannu arfer gorau trwy drafod datblygiadau o ran prosiectau a thueddiadau yn y farchnad lafur.
- Mae’r Cyngor hefyd wedi creu Grŵp Ymgysylltiad Darparwyr Castell-nedd Port Talbot. Nodau’r grŵp hwn yw rhannu gwybodaeth am yr hyn y gall pob sefydliad cymorth ei gynnig i gyfranogwyr, sicrhau bod prosesau atgyfeirio

[5] Gweler Atodiad 1

effeithiol yn bodoli, a sicrhau bod y grŵp yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r gyfundrefn lles.

- Ceir cydweithio cryf gyda busnesau yng ngwaith y Cyngor i ysgogi manteision cymunedol o gontractau ar brosiectau pwysig.
- Am nifer o flynyddoedd bu gan y Cyngor grŵp mewnol o'r enw'r Fforwm Cyllid Strategol. Nod y grŵp hwn yw cydgysylltu arbenigedd a chapasiti ar draws yr awdurdod i gael cymorth grant a chyllid allanol. Mae amodau gorchwyl y grŵp hwn yn cynnwys:
  – sicrhau bod yr holl gyllid a gaiff ei sicrhau yn gysylltiedig â nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor;
  – bod yn adnodd traws-gyfarwyddiaethol i roi cyngor a gwybodaeth ynghylch cyllid allanol; a
  – sicrhau ymwybyddiaeth gorfforaethol o gynlluniau ariannu posibl, ceisiadau am grantiau sydd ar ddod, a pherthnasedd cynigion arfaethedig i flaenoriaethau cyfredol/arfaethedig y Cyngor.

26 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Nododd y Cyngor y gallai'r cydweithio rhwng rhai rhannau o'r Cyngor fod yn well, e.e. gwasanaethau bioamrywiaeth ac adfywio.
- Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid ar ei raglen adfywio ond yn nodi ei bod yn anodd cynnwys yr holl bartneriaid gan eu bod yn amrywio o ran pa mor barod ydynt i fod yn rhan o brosiectau.
- Mae angen i'r Cyngor benderfynu sut y bydd yn asesu effeithiolrwydd ei drefniadau cydweithio i'w cryfhau yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid, ond mae angen iddo wella ac estyn ei ddull o gynnwys pobl

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cynnwys’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[6]

## Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae’r Cygnor yn cynnwys busnesau ac yn gwrando arnynt trwy fentrau megis digwyddiadau Cwrdd â’r Prynwr, Clybiau Menter, a Bŵt-camps i Fusnesau.
- Mae’r Cyngor yn gwrando ar fusnesau lleol i ddeall eu hanghenion a darparu adeiladau sy’n ateb y gofynion hyn.
- Mae’r Cyngor wedi sefydlu’r Bwrdd Prosiectau Lleol fel ffordd o gynnwys partneriaid eraill. Mae’r Cyngor yn diffinio diben Bwrdd Prosiectau Lleol Castell-nedd Port Talbot fel partneriaeth sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector yn cydweithio i gynyddu i’r eithaf fanteision prosiectau adfywio i wella ffyniant economaidd y Fwrdeistref Sirol.
- Ar gyfer rhai prosiectau, mae’r Cyngor wedi bod yn cynnwys y gymuned, e.e. Grŵp y Plaza (grŵp lleol a sefydlwyd i ystyried yr opsiynau ar gyfer dyfodol Sinema’r Plaza).

30 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae’r Cyngor yn datblygu Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol newydd (gan gynnwys sefydlu Panel Dinasyddion newydd); fodd bynnag, nid oes cynllun ar y cyfan i gynnwys rhanddeiliaid mewn gwaith adfywio.
- Nid yw’r Cyngor wedi adnabod adnoddau o fewn adfywio i wneud gwaith cynnwys.
- Mae’r Cyngor yn cydnabod y gallai ymgynghori’n allanol ar adeg gynharach ynghylch ei gynlluniau ar gyfer adfywio.
- Nododd y Cyngor fod graddfeydd amser tynn ar gyfer cyllid yn golygu ei bod yn anodd cynnwys dinasyddion ar raddfa fawr, felly ei fod yn canolbwyntio dim ond ar siarad gyda chynghorwyr lleol i gasglu barn, sy’n gyfyngedig.
- Mae angen i’r Cyngor gymryd camau i wella’i ddull o gynnwys, gan gynnwys:
  – nodi sut y bydd cynnwys yn goleuo gwaith adfywio’r Cyngor;
  – sicrhau bod gwaith cynnwys yn cwmpasu holl amrywiaeth y gymuned;
  – cynnwys pobl yn ystod pob cam yn y broses, gan gynnwys dylunio, datblygu, cyflawni, ac adolygu; ac
  – adolygu ei drefniadau ymgynghori ac ymgysylltu’n rheolaidd i wella gwaith cynnwys yn y dyfodol.

[6] Gweler Atodiad 1

## Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

31 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Tachwedd 2019 yr oedd swyddogion y Cyngor yn bresennol ynddo. Yn y gweithdy hwn fe ddechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu. Mae cynllun gweithredu'r Cyngor wedi'i atodi yn atodiad 2.

32 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u nodi yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

**Arddangosyn 2: Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio**

Mae’r tabl isod yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o’r pum ffordd o weithio yr ydym wedi’u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio’r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid ystyried mai dangosyddion ydynt. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau wrth ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

**Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?**

- Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae ‘hirdymor’ yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni’r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.
- Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a’r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).
- Maent wedi dylunio’r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau’r dyfodol.
- O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.
- Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi’u nodi lle bydd deilliannau’n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.
- Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.
- Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth.

**Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio ataliol yn llawn?**

- Mae’r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i’r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy’n pontio’r cenedlaethau.
- Mae’r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi’r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.
- Mae’r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy’n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.
- Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy’n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'?**

- Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.
- Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.
- Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.
- Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol ?**

- Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.
- Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.
- Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol.

**Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol ?**

- Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.
- Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.
- Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.
- Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella.

# Atodiad 2

### Cyflwyno Rhaglenni Adfywio Strategol – Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

### Cynllun Gweithredu Cyngor Castell-nedd Port Talbot

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bydd y Cyngor yn datblygu Cynllun Adfywio Strategol yn y fformat a argymhellir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru** | Hydref 2020 | Mae'r Cyngor wedi bod yn cysylltu ei raglen Adfywio â Strategaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol. Ceir cydnabyddiaeth ac angen clir i'r Cyngor ddatblygu Strategaeth a berchnogir gan Gastell-nedd Port Talbot ei hun ac sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ardal.<br>Mae'r tîm eisoes wedi dechrau gwaith i roi'r Strategaeth hon ar waith.<br>Ar lefel genedlaethol bydd yn dwyn perthynas â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru, ac ar lefel Ranbarthol â Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.<br>Fodd bynnag, bydd yn unigryw i'r amodau ac amgylchiadau economaidd yn y Fwrdeistref ac yn eu hadlewyrchu, ac yn nodi sut y bydd y Strategaeth Adfywio'n mynd i'r afael â'r rhain ac yn effeithio arnynt. Bydd yn adlewyrchu'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol, a sut y gall y rhain ddwyn budd i Gastell-nedd Port Talbot ei hun, gan hefyd ymgorffori Cynllun Corfforaethol y Cyngor ei hun. Hefyd, bydd yn atebol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn dangos sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer y 5 Ffordd o Weithio a nodir yn y Ddeddf ac yn rhoi'r rheiny ar waith.<br>Bydd y Strategaeth yn sail i raglenni Adfywio a Datblygu Economaidd y Cyngor yn y dyfodol. | Tîm Adfywio | Yn mynd rhagddo |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o adnoddau, cydnerthedd a chynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer y tîm adfywio** | Gorffennaf 2020 | Mae'r Cyngor wastad wedi cydnabod pwysigrwydd y Rhaglen Adfywio a gwaith y tîm adfywio. Fodd bynnag, mae'r tîm yn gymharol fach o'i gymharu ag Awdurdodau cyfagos, ac mae'n aml yn gallu bod dan bwysau. Mae'r Awdurdod eisoes yn mynd i'r afael â hyn, ac mae dwy swydd dros dro wedi cael eu creu i ymdrin yn benodol â Phrosiect Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Hefyd, mewn egwyddor ac yn amodol ar gymeradwyaeth, ar lefel gorfforaethol, trafodwyd a ddylid ychwanegu dau aelod parhaol arall o staff at y tîm, yn arbennig i gefnogi gwaith Adfywio Canol Trefi ac Adferiad ar ôl Covid-19. Ar ben hynny, mae'r Rheolwr Adfywio a Datblygu Economaidd yn cynnal trafodaethau gydag aelodau o'r ddau dîm i archwilio sut y gallant weithio ar draws ffiniau timau ar yr adegau pan geir y mwyaf o alw. | Cyfarwyddwyr Corfforaethol/ Pennaeth Gwasanaeth/ Rheolwr Adfywio a Datblygu Economaidd. | Yn mynd rhagddo |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | **Bydd y Cyngor yn ehangu rôl y Bwrdd Prosiectau Lleol i oruchwylio'r rhaglen adfywio a darparu sail ar gyfer ymgynghori a herio** | Gorffennaf 2020 | Mae'r Bwrdd Prosiectau Lleol wedi cwrdd sawl gwaith ac mae'r presenoldeb wedi bod yn dda. Yr hyn sy'n arbennig o galonogol yw'r presenoldeb o blith cyrff allanol, ac yn enwedig y rhai o'r sector preifat.<br>Hyd yma mae eu prif fewnbwn wedi bod mewn perthynas â'r prosiectau Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio, a'u cymeradwyo neu fel arall, ac maent wedi herio'r Cyngor mewn ffordd adeiladol ynglŷn â nifer o'r prosiectau sydd wedi cael eu cyflwyno ger eu bron i'w hystyried.<br>Mae felly'n eithriadol o bwysig wrth edrych tua'r dyfodol bod y grŵp hwn yn cael ei ehangu mewn ffordd addas i gynyddu nifer ac amrywiaeth mynychwyr o'r tu allan, i ehangu'r mewnbwn. Hefyd, bydd cylch gorchwyl y Grŵp yn cael ei ehangu, i gynnwys cwmpas ehangach o brosiectau.<br>Byddwn yn parhau i adolygu'r grŵp, ac ymgynghori â hwy er mwyn llunio ein rhaglen Adfywio yn y dyfodol. | Tîm Adfywio | Ar unwaith |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Y Cyngor i adolygu ac ehangu mesurau o lwyddiant a dangosyddion perfformiad ar gyfer prosiectau adfywio a pherfformiad ym maes adfywio – i'w cynnwys yn y Cynllun Adfywio Strategol** | Hydref 2020 | Ar hyn o bryd, mae'r unig ddangosydd perfformiad sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag Adfywio yn y Cynllun Corfforaethol yn ymwneud â nifer y swyddi a grëwyd/ddiogelwyd. Rydym yn cydnabod bod hwn yn offeryn mesur annigonol, os ydym yn mynd i fynd ati go iawn i fonitro ac asesu ein hallbynnau, a'r manteision ac effeithiau ar ein cymunedau o ganlyniad i'n Rhaglen a'n Strategaeth. Mae angen i'n Dangosyddion Perfformiad fod yn fwy eang a holistaidd, gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn wirioneddol fesuradwy. Rhaid iddynt symud i ffordd o'r dangosydd moel ynglŷn â 'swyddi a grëwyd', a bwrw golwg fanylach ar gysylltiadau rhwng prosiectau Adfywio a manteision eraill llai amlwg, a fydd yn adlewyrchu ein heffaith ehangach, megis lefelau mewnfuddsoddi, busnesau newydd, cyfraddau meddiannaeth, gwerth cymdeithasol a sicrhawyd trwy gontractio a.y.b.<br>Mae gwybodaeth ar gyfer llawer o'r Dangosyddion Perfformiad hyn eisoes yn cael ei chasglu trwy System Rheoli Perfformiad Gorfforaethol y Cyngor, ond mae angen iddynt fod yn fwy uniongyrchol gysylltiedig â'r Strategaeth Adfywio, a'i gwerthuso. | Tîm Adfywio | Yn mynd rhagddo |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Bydd cyfraniad prosiectau adfywio unigol at y nodau Llesiant yn cael ei asesu a'i fonitro** | Gorffennaf 2020 | Y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol yn y bôn yw'r hanfodion o ran pam ein bod yn hybu Adfywio fel un o'r prif amcanion yng Nghymru, ond lawn cyn bwysiced, yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'n bosibl, wrth ymdrechu i sicrhau cyllid a chyflawni prosiectau, ein bod weithiau'n colli golwg ar yr amcanion sylfaenol hyn.<br>Yn y dyfodol, mae angen i'r 7 nod fod yn fwy amlwg a bod yn rhan o resymeg ac amcanion nid dim ond ein rhaglen ar y cyfan, ond prosiectau unigol hefyd.<br>Yn y dyfodol, byddant yn ffynhonnell y gellir cyfeirio'n gyson ati trwy gydol pob cam o'r prosiect, yn y dechrau un, yn ystod y cam dylunio, y cam cwblhau a'r tu hwnt. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu hasesu'n feirniadol ac yn cael eu monitro fel rhan o swyddogaeth Rheoli Prosiectau'r tîm. | Tîm Adfywio | Ar unwaith |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | **Bydd y Cyngor yn hybu integreiddio amlwg rhwng ei raglen adfywio ac amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | Gorffennaf 2020 | Fel rhan o'n dull mwy cynhwysol o fynd ar drywydd Adfywio yn y dyfodol, bydd yn hanfodol bod y tîm yn meithrin cysylltiadau agosach â'r BGC, er mwyn inni allu rhannu ein cynigion ar adeg gynnar, i oleuo a chael arfarniad beirniadol. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod wedi'n halinio â'n hamcanion cyffredin o ran ein nodau Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>Fel rhan o sefyllfa Covid-19 mae'r tîm eisoes wedi Cadeirio is-grwpiau o'r BGC er mwyn cydgysylltu Cynllun Adfer Economaidd ledled y Fwrdeistref, a rhaid i'r perthnasoedd newydd hyn gael eu cynnal a'u tyfu yn awr. | Uwch Dîm Rheoli | Yn mynd rhagddo |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Bydd y Cyngor yn hybu integreiddio rhwng y prosiectau cyflogadwyedd sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd** | Gorffennaf 2020 | Er bod dwy brif Raglen Cyflogadwyedd y Cyngor, sef Gweithffyrdd+ a Cymunedau am Waith, yn dal i fod mewn Cyfarwyddiaethau ar wahân, sef Yr Amgylchedd ac Adfywio ac Addysg yn y drefn honno, mae'n anorfod bod y ffaith eu bod bellach yn gweithio mewn swyddfeydd a rennir yn y Weithfan wedi arwain at fwy o gydweithio rhyngddynt. Yn yr un modd, mae'r amgylchiadau anffodus mewn perthynas â chyflogaeth a Covid-19, a'r ymateb dilynol iddo, hefyd wedi golygu dull llawer mwy cydgysylltiedig o fynd ar drywydd Cyflogadwyedd.<br>Mae dau adeilad adfeiliedig y tu ôl i'r Weithfan yn mynd i gael eu hadnewyddu er mwyn i'r ddwy raglen allu eu defnyddio fel cyfleusterau hyfforddi, ac ni all hyn eto ond cryfhau'r bartneriaeth. | Uwch Dîm Rheoli | Yn mynd rhagddo |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Bydd Manteision Cymunedol posibl yn cael eu hystyried ar adeg gynnar ar gyfer pob prosiect.** | Gorffennaf 2020 | Mae Manteision Cymunedol o'r pwys mwyaf i'r tîm Adfywio a'r Cyngor ehangach. Dangoswyd hyn trwy greu swydd sydd wedi'i neilltuo i ganolbwyntio ar y mater. Ar hyn o bryd ceir weithiau oedi neu ddiffyg cydamseru rhwng Rheoli Prosiectau a Manteision Cymunedol. Cydnabyddir na all hyn barhau gan ei fod, yn y pen draw, yn niweidiol i'n trigolion a'n cymunedau busnes. Yn y dyfodol, felly, bydd llawer mwy o bwyslais i sicrhau yr ymgysylltir â'r swyddog Manteision Cymunedol ar yr adeg gynharaf bosibl, gan gynnwys ar y dechrau un, a ni waeth beth fo maint y prosiect. | Tîm Adfywio | Ar unwaith |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Bydd y Cyngor yn datblygu strategaeth i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau integreiddio ac ymwneud â meysydd eraill yn y Cyngor ac â rhanddeiliaid allanol.** | Gorffennaf 2020 | Mewn ffordd debyg i'r uchod, yn ogystal â'r Swyddog Manteision Cymunedol, byddwn yn sicrhau yr ymgysylltir â'r holl Adrannau a Chyfarwyddiaethau cysylltiedig eraill yn y Cyngor ar yr adeg gynharaf bosibl ar gyfer pob prosiect.<br>Yn y dyfodol, bydd y Tîm Adfywio'n sicrhau bod 'Cyfarfod Dechrau' ar gyfer y Tîm Prosiect ehangach ar draws y Cyngor. Hefyd, bydd yn gwahodd partneriaid allanol, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Cyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau cymunedol perthnasol, fel y bo'n briodol, i fod yn rhan ohono.<br>Yn hollbwysig i'r amcan hwn hefyd fydd cynnwys ein Tîm Cyfathrebu. Mae'n hanfodol, yn y dyfodol, bod ymgynghori nid dim ond yn cael ei ystyried yn ofyniad angenrheidiol yn y Broses Gynllunio, ond ei fod yn ymgais gwirioneddol ac yn weithred wirioneddol, er mwyn cael mewnbwn gan gymaint â phosibl o bartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys y cyhoedd a grwpiau cymunedol, i bob prosiect ar adeg gynnar. Bydd yr ymgysylltu cynnar hwn nid dim ond yn sicrhau barn ehangach gweithwyr proffesiynol perthnasol ond bydd hefyd yn lleihau'r risg cyflawni sy'n gysylltiedig â phob prosiect. Gyda hyn mewn golwg mae cyfarfodydd prosiect eisoes wedi cychwyn ar lefel uwch reolwyr i sicrhau perchnogaeth lawn gan Gyfarwyddiaethau ar brosiectau strategol. Mae angen i Strategaeth Gyfathrebu fod yn rhan annatod o'n proses, a bod yn fwy amlwg nag ar hyn o bryd. | Uwch Dîm Rheoli | Ar unwaith |

| | Argymhelliad | Dyddiad targed | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Bydd y Cyngor yn ystyried sut i ehangu camau gweithredu ar y cyd gyda sefydliadau allanol yn y dyfodol i gyflawni amcanion adfywio.** | Gorffennaf 2020 | Mae’r tîm adfywio eisoes yn cymryd camau tuag at fwy o integreiddio â sefydliadau allanol a’u cynnwys yn fwy trwy gyrff megis y Bwrdd Prosiectau ac, yn fwy diweddar, y BGC. Fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei wreiddio’n fwy byth, fel rhan o ddiwylliant y gwasanaeth yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cynyddu i’r eithaf y manteision i’n dinasyddion a’n cymunedau. Rhaid inni felly ehangu ymhellach ar ein hamcan integreiddio, cynnwys ac ymgynghori, er mwyn cwrdd â’u disgwyliadau yn unol â’n Cynllun Corfforaethol ni ein hunain, yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. | Tîm Adfywio | Ar unwaith |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.